**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Y Pwyllgor Busnes**

**Mai 2012**

# Gwelliannau arfaethedig i Reol Sefydlog 12 mewn perthynas â Chwestiynau Llafar

## Diben

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), mae'r Pwyllgor Busnes yn gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Cynulliad, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud neu ddiwygio'r Rheolau Sefydlog.

## Cefndir

2. Yn ei gyfarfod ar 24 Ebrill, ystyriodd y Pwyllgor Busnes bapur a oedd yn amlinellu sut y mae'r gweithdrefnau newydd o ran cynnal balot ar gyfer Cwestiynau Llafar y Cynulliad wedi gweithio yn y Pedwerydd Cynulliad.

3. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ddiwygio'r weithdrefn ar gyfer cyflwyno cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a Chomisiwn y Cynulliad er mwyn dileu'r gofyniad i gynnal balot cychwynnol o dan Reol Sefydlog 12.61.

### *Y trefniadau cyfredol ar gyfer y balot*

4. Yn ôl Rheol Sefydlog 12.61 rhaid i'r Llywydd gynnal balot er mwyn dethol enwau'r Aelodau sydd yna'n gymwys i gyflwyno cwestiynau. Er bod Aelodau'n cyflwyno mwy o gwestiynau yn gyffredinol nag y gwnaethant yn y Trydydd Cynulliad, mae nifer y cwestiynau sy'n cael eu cyflwyno i'r Cwnsler Cyffredinol a Chomisiwn y Cynulliad bron bob tro yn sylweddol llai na'r 15 cwestiwn a allai ymddangos ar y rhestr.

5. Ar y naill law, ar ôl i Aelod gael ei ddewis mewn balot, gallai deimlo gorfodaeth i gyflwyno cwestiwn er nad oedd ganddo fater mewn golwg yn y lle cyntaf. Ar y llaw arall, gallai fod gan Aelod arall fater y mae am ei godi â’r Cwnsler Cyffredinol neu Gomisiwn y Cynulliad ond na all wneud hynny am nad oedd wedi llwyddo yn y balot cychwynnol.

6. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y gellir datrys y materion hyn drwy arddel gweithdrefnau'r Cynulliadau blaenorol ar gyfer cwestiynau i’r Cwnsler Cyffredinol a Chomisiwn y Cynulliad, lle y mae gan bob Aelod yr hawl i gyflwyno cwestiynau, a lle y caiff trefn y cwestiynau eu dethol drwy hapddull ar ôl yr amser cau perthnasol.

**Penderfyniad**

7. Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y newidiadau i’r Rheolau Sefydlog yn Atodiad A ar 1 Mai 2012 a gwahoddir y Cynulliad i gymeradwyo’r cynnig.

**Atodiad A**

**Cwestiynau Llafar**

12.61 Rhaid i'r Llywydd gynnal balot er mwyn dethol enwau'r Aelodau y caniateir iddynt gyflwyno cwestiynau llafar i Brif Weinidog Cymru a Gweinidogion Cymru~~cwestiwn yn unol â Rheol Sefydlog 12.64~~.

12.62 Rhaid cynnal balot o dan Reol Sefydlog 12.61 o leiaf un diwrnod gwaith cyn y diwrnod cyntaf y caniateir cyflwyno cwestiynau.

12.63 Ni chaiff Aelod gyflwyno ei enw i'r balot o dan Reol Sefydlog 12.61 fwy na dwywaith ar gyfer cwestiynau llafar i un o Weinidogion Cymru yn benodol ~~neu i'r Cwnsler Cyffredinol (neu, yn achos cwestiynau~~ac unwaith ar gyfer cwestiynau llafar i Brif Weinidog Cymru~~ neu i'r Comisiwn, ni chaiff gyflwyno ei enw fwy nag unwaith)~~.

12.63A Caiff unrhyw Aelod gyflwyno cwestiynau llafar i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Comisiwn.

12.63B Ni chaiff Aelod gyflwyno mwy na dau gwestiwn llafar i'r Cwnsler Cyffredinol, ac un cwestiwn llafar i'r Comisiwn, ar gyfer unrhyw wythnos y byddant yn ateb cwestiynau.

12.64 Rhaid penderfynu ar drefn cwestiynau llafar fel a ganlyn:

(i) yn achos cwestiynau a dderbynnir cyn yr amser cau y cytunir arno gan y Pwyllgor Busnes ar y diwrnod cyntaf y caniateir iddynt gael eu cyflwyno, drwy hapddull;

(ii) yn achos cwestiynau a dderbynnir ar ôl yr amser cau y cytunir arno gan y Pwyllgor Busnes ar y diwrnod cyntaf y caniateir iddynt gael eu cyflwyno, yn y drefn y deuant i law.